

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bron Brawf Cymru, Llandudno,
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 28 ac 29 Awst 2024

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	26
4.	Y camau nesaf	29
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B - Cynllun Hysbysiad Gwella.....	31
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	47

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Bron Brawf Cymru, Llandudno, Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 28 a 29 Awst 2024. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC a dau Uwch-gynghorydd Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd y tîm gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd pobl i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 36 o holiaduron gan gleifion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth a chwblhawyd 10 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Er bod agweddau cadarnhaol wedi'u nodi mewn perthynas â'r gwasanaeth a bod cleifion yn fodlon ar eu profiad yn Bron Brawf Cymru, canfu ein harolygiad nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R).

Ni chawsom sicrwydd bod y cyflogwr wedi cyflawni ei ddyletswydd i ddarparu fframwaith drwy raglenni sicrhau ansawdd, protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig i ddeiliaid dyletswydd gyflawni eu swyddogaethau. O ganlyniad, roedd risg y gallai rheolaethau i sicrhau diogelwch cleifion fod yn annigonol, gan arwain at wallau neu niwed posibl. Cyhoeddodd AGIC Hysbysiad Gwella o dan Adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n llawn ag AGIC i ddatrys y materion ac o ganlyniad i'r dystiolaeth a adolygwyd gan AGIC, codwyd yr Hysbysiad Gwella ar 10 Rhagfyr 2024. Ceir rhagor o wybodaeth a chopi o Gynllun llawn yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaeth Bron Brawf Cymru, Llandudno. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleientiaid am gyfleoedd i roi adborth drwy raglenni cenedlaethol
- Arddangos gwybodaeth "dywedoch chi, gwnaethom ni" er mwyn dangos sut mae adborth wedi'i ddefnyddio i wella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd cleientiaid adborth a sylwadau cadarnhaol am agwedd y staff a oedd yn gofalu amdanynt
- Ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod rhai trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bobl. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r ymddiriedolaeth mewn perthynas â diogelu. Roedd y lleoliad yn lân ac yn daclus, heb annibendod. Roedd yr ystafelloedd yn fodern ac roedd y cyfarpar mewn cyflwr da.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd Bron Brawf Cymru Llandudno yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Hysbysiad Gwella:

Gwnaethom nodi nad oedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn gynhwysfawr, wedi'u cadarnhau nac yn hygyrch i'r staff. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai rheolaethau i sicrhau diogelwch cleifion fod yn annigonol, gan arwain at wallau neu niwed posibl.

Mae Cynllun Gweithredu llawn yr Hysbysiad Gwella wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Comisiynu a phrofi cyfarpar newydd
- Rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar
- Amgylchedd glân, modern a chroesawgar, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, heb unrhyw beryglon amlwg i'r rhai sy'n ymweld â'r lleoliad
- Trefniadau diogelu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom y Ffurflen Hunanasesu wedi'i chwblhau a'r ddogfennaeth gysylltiedig mewn modd amserol.

Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r cyflogwr dynodedig o dan IR(ME)R 2017. Ni lwyddodd yr ymddiriedolaeth i ddangos strwythur clir na llinellau adrodd ac atebolrwydd o dan IR(ME)R yn ystod yr arolygiad.

Roedd yn ymddangos nad oedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd yn y ffurflen hunanasesu wedi llwyddo i roi polisiau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas ag IR(ME)R.

Hysbysiad Gwella:

- Nid oedd y polisiau, y gweithdrefnau na'r dogfennau wedi'u cadarnhau ac nid oeddent yn hygyrch i'r staff.

- Nid oedd gan y deiliad dyletswydd ddealltwriaeth a gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag IR(ME)R 2017
- Tystiolaeth annigonol o hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer agweddau ymarferol penodol.

Mae Cynllun llawn yr Hysbysiad Gwella wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dywedodd rhai o'r staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ddigon mewn penderfyniadau am eu gwaith. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol y GIG
- Cyfraddau arfarnu ar gyfer staff
- Dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gonestrwydd. |

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron ar-lein a phapur er mwyn casglu safbwyntiau cleientiaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn i ategu arolygiad AGIC ym mis Awst 2024. Cawsom gyfanswm o 36 o ymatebion gan gleientiaid yn y lleoliad hwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob maes, gyda phob un o'r ymatebwyr ond dau yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.' Ni chwblhaodd pob ymatebydd yr holiadur hyd at y diwedd, a chafodd rhai cwestiynau eu gadael yn wag ym mhob rhan. Mae enghraifft o'r sylwadau a gawsom am y gwasanaeth wedi'i chynnwys.

“Gwasanaeth gwych, prin y bu'n rhaid i mi aros, proffesiynol iawn.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd posterï dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) wedi'u harddangos yn cynghori'r rhai a oedd yn bresennol ar gyfer profion sgrinio i ddweud wrth y staff os oeddent yn bwydo ar y fron neu os gallent fod yn feichiog. Gwelsom fod deunydd hybu iechyd wedi'i arddangos yn yr ardaloedd aros yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision peidio â smygu, lleihau risgiau canser y fron, bod yn gyfarwydd â'ch bronnau, ac ati.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd y cleient. Cadarnhaodd pawb ond un a gwblhaodd yr holiadur y canlynol:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed
- Bod y staff wedi gwrando arnynt.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd pawb ond un a ymatebodd yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio iddynt beth roeddent yn ei wneud.

Roedd y cleientiaid y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu gofal hefyd.

Amserol

Gofal amserol

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu ynghylch apwyntiadau sgrinio.

Roedd cleientiaid yn bresennol am brofion sgrinio ar ail ddiwrnod ein harolygiad, ac ni welwyd unrhyw oedi o ran apwyntiadau ar y diwrnod hwnnw. Roedd arwydd yn yr ardal aros i roi gwybod i'r staff pe bai oedi o ran eu hapwyntiad.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr adran. Gwelsom fod posterï gwybodaeth dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg wedi'u harddangos yn glir yn yr adran. Gwelsom fod arwyddion dwyieithog clir wedi'u gosod i gyfeirio ymwelwyr i'r adran. Dywedodd rhai o'r staff wrthym eu bod yn siarad Cymraeg a bod rhai aelodau o'r staff yn dysgu Cymraeg hefyd.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw rai o'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl ag anawsterau clywed a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Roedd dolen sain ar gael yn y brif dderbynfa. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu pe bai eu hangen i gefnogi cleientiaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y staff fod dyfais cyfieithu symudol ar gael i gefnogi cleifion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth wedi'i harddangos am sut i roi adborth am y gofal drwy ddefnyddio codau QR amrywiol. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau sut y byddent yn ymdrin ag adborth cadarnhaol a negyddol. Dywedwyd wrthym y gallai cleientiaid wneud cwyn drwy broses Gweithio i Wella GIG Cymru. Fodd bynnag, nid oedd poster Gweithio i Wella wedi'i arddangos yn yr adran.

Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am Llais, sef y corff annibynnol cenedlaethol a sefydlwyd i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, nid oedd bwrdd "Dywedoch chi, gwnaethom ni" neu debyg wedi'i arddangos er mwyn dangos sut mae'r gwasanaeth wedi ystyried unrhyw adborth a gafwyd.

Rhaid i Bron Brawf Cymru, Llandudno sicrhau bod y posterï perthnasol yn cael eu harddangos mewn perthynas â'r canlynol:

- Llais
- Gweithio i Wella
- Gwybodaeth “Dywedoch chi, gwnaethom ni”.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod hawliau cleientiaid yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn yr adran. Esboniodd y staff y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb, fel mynediad i gadeiriau olwyn. Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd trin mawr. Roedd modd addasu'r cyfarpar sgrinio i archwilio'r rheini na allai sefyll ar gyfer apwyntiadau sgrinio'r fron. Cadarnhaodd y staff fod apwyntiadau hirach ar gael i'r cleientiaid hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol i bob aelod o'r staff, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau'r cwrs hwn ar-lein. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo hawliau cleifion pan fyddent yn dod i'r adran. Gallent gadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd holiadur AGIC fod ganddo fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017

Dyletswyddau'r Cyflogwr: sefydlu gweithdrefnau, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd cyffredinol

Gweithdrefnau a phrotocolau

Darparwyd dogfennau cyn yr arolygiad fel rhan o'r Ffurflen Hunanasesu wedi'i chwblhau.

Gwnaethom edrych ar yr holl ddogfennau mewn perthynas ag IR(ME)R a gyflwynwyd cyn yr arolygiad a siarad â deiliaid dyletswydd ac uwch-reolwyr i gadarnhau eu bod yn deall y prosesau a'r arferion. Ar y cyfan, gwnaethom nodi'r canlynol mewn perthynas â'r polisiau a'r gweithdrefnau:

- nid oeddent wedi'u cadarnhau'n ffurfiol
- dim ond ar ffurf drafft / heb ei ddiweddarau roeddent ar gael i'r staff
- roeddent yn hir ac yn anodd i'r staff ddod o hyd iddynt a'u deall
- nid oeddent bob amser ar gael yn hawdd i ddeiliaid dyletswydd (yn enwedig y rheini a oedd yn gweithio ar unedau symudol)
- nid oeddent bob amser yn gyson ag ymarfer clinigol
- nid oeddent bob amser yn adlewyrchu'r arferion gorau a argymhellir ar hyn o bryd
- nid oedd pob deiliad dyletswydd wedi'u darllen nac yn cydymffurfio â nhw bob amser

Roedd un enghraifft yn ymwneud â phrosesau cadarnhau yn cynnwys y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd a gyflwynwyd cyn yr arolygiad. Gwnaethom nodi nad oedd dyddiadau adolygu a chyhoeddi wedi'u dogfennu ar y polisi a gyflwynwyd, ac mai dim ond 'i'w gadarnhau' oedd wedi'i gofnodi. Darparwyd Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd gwahanol i'r tîm adolygu yn ystod yr arolygiad. Roedd anghysondebau rhwng y ddwy ddogfen o ran y grwpiau a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo polisiau a chefnogi polisiau, na allai'r gwasanaeth eu hegluro.

Gwnaethom nodi nad oedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn gynhwysfawr, wedi'u cadarnhau nac yn hygyrch i'r staff. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai rheolaethau i sicrhau diogelwch cleifion fod yn annigonol, gan arwain at wallau neu niwed posibl.

Ni chafodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sicrwydd bod y cyflogwr wedi cyflawni ei ddyletswydd i ddarparu fframwaith drwy raglenni sicrhau ansawdd, protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig i ddeiliaid dyletswydd gyflawni eu

swyddogaethau. Cyhoeddodd AGIC Hysbysiad Gwella o dan Adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Dim ond ar ffurf drafft, o fewn dogfen Gweithdrefnau Diogelu rhag Ymbelydredd f21 ddrafft yr oedd gweithdrefnau'r cyflogwr sy'n ofynnol o dan IR(ME)R 2017 ar gael. Cyflwynwyd y ddogfen hon cyn yr arolygiad ar ffurf a oedd yn "destun adolygiad". Y dyddiad arni oedd 7 Rhagfyr 2021.

Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn rhoi cyfarwyddiadau clir ynghylch sut a phryd y dylid rhoi proses ar waith ac nid oedd bob amser yn nodi pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni tasgau. Roedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn cyfeirio'r darlennydd at ddogfennau ychwanegol am fanylion a ddylai fod wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau. Roedd y dogfennau ategol yn hir ac yn anodd eu dilyn.

Nid oedd y dogfennau yn adlewyrchu'r ymarfer clinigol yn y lleoliad yn gywir. Ni allai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau, pan ofynnwyd iddynt, ble y gallent gael gafael ar weithdrefnau'r cyflogwr. Roedd hyn yn golygu na allent bob amser gadarnhau'r broses ar gyfer cyflawni tasgau mewn perthynas â rolau IR(ME)R. Ni allai staff gyfeirio at weithdrefnau'r cyflogwr wrth weithio ar yr unedau mamogram symudol oherwydd diffyg mynediad i'r rhyngwyd/mewnwyd ar yr unedau symudol.

Rhannwyd adborth penodol mewn perthynas â dogfennau a gweithdrefnau unigol y cyflogwr fel rhan o'r broses o edrych ar y ffurflen hunanasesu yn ystod yr arolygiad ac mae wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau manwl ar gyfer gwella. **Oherwydd nifer yr awgrymiadau a wnaed, rhaid i'r cyflogwr weithredu ar yr adborth penodol a rannwyd wrth edrych ar y Ffurflen Hunanasesu yn ystod yr arolygiad, mewn perthynas â diweddarau pob un o weithdrefnau'r cyflogwr.**

Nid oedd y dogfennau a welsom mewn perthynas ag IR(ME)R yn cynnwys proses gyson a systematig ar gyfer adolygu, diweddarau a rhannu newidiadau. Mewn adolygiad lleol gan AGIC o wasanaethau sgrinio'r fron yn Bron Brawf Cymru yn 2020, argymhellwyd y dylid cyflwyno proses gyson a systematig o adolygu, diweddarau a rhannu newidiadau i brosesau a pholisïau, gan gynnwys defnyddio dull rheoli fersiynau. Roedd yn siomedig nodi yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd hyn wedi'i gyflawni ac nad oedd camau wedi'u cymryd mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

Ymdriniwyd â sicrhau ansawdd polisiau a gweithdrefnau yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B.

Proses atgyfeirio a chanllawiau ar atgyfeirio

Gwnaethom ystyried y broses atgyfeirio a'r canllawiau ar atgyfeirio wrth edrych ar y Ffurflen Hunanasesu. Roedd y wybodaeth hon yn gyfyngedig ac nid oedd unrhyw feini prawf ar gyfer atgyfeirio cleifion am brofion sgrinio. Roedd diffyg eglurder yn y dogfennau a welsom ac ymysg y staff a'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw ynghylch y broses atgyfeirio a'r canllawiau ar atgyfeirio.

Wrth drafod â'r gwasanaeth, nodwyd bod cleientiaid yn cael llythyr gwahodd a gynhyrchwyd gan System Sgrinio'r Fron Genedlaethol. Roedd y gwahoddiad hwn, a oedd yn gweithredu fel atgyfeiriad, yn cynnwys dyddiad ac amser apwyntiad ac fe'i hanfonwyd gan bennaeth y rhaglen, er nad oedd yr atgyfeiriwr wedi'i lofnodi. Felly, pennaeth y rhaglen oedd â hawl atgyfeiriwr ar gyfer profion sgrinio.

Lle roedd angen apwyntiad ar gleient yn y clinig asesu neu lle roedd angen adalw cleient am resymau technegol, y gweithredwr a oedd yn cynnal y gwerthusiad clinigol oedd yn gweithredu fel yr atgyfeiriwr. Wrth edrych ar gofnodion, ni welsom dystiolaeth o ffurflen atgyfeirio ar gyfer y broses hon ac, felly, tystiolaeth o atgyfeiriwr a enwyd.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â'r broses atgyfeirio a'r canllawiau ar atgyfeirio yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a chofnodi'r broses atgyfeirio.

Rhaid i'r broses atgyfeirio gael ei hadolygu i gynnwys y canlynol:

- proses i ddarparu canllawiau sefydledig ar atgyfeirio i'r atgyfeiriwr
- tystiolaeth o ganllawiau ar atgyfeirio ar gyfer mamograffi sgrinio
- proses ar gyfer rheoli dogfennau a chadw gwybodaeth gan ffynonellau sylfaenol i gefnogi archwiliadau o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R
- tystiolaeth o atgyfeiriwr unigol ar gyfer cleifion biopsi a chlinig asesu
- llofnod yr atgyfeiriwr ar y llythyr gwahodd am brawf sgrinio.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu bod yn defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer mamograffi sgrinio. Roedd siartiau lefelau cyfeirio diagnostig i'w gweld ar yr hysbysfyrddau yn y ddwy ystafell mamograffi.

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig a gwelsom ei fod yn cynnwys y lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer cyfarpar nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach (Philips MicroDose). Nid oedd gweithdrefn y cyflogwr yn cyfeirio at y lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer tomosynthesis, y

cadarnhaodd yr arbenigwyr ffiseg feddygol eu bod ar waith ac yn cael eu defnyddio. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer tomosynthesis.

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â lefelau cyfeirio diagnostig er mwyn adlewyrchu'r lefelau cyfredol a ddefnyddir. Rhaid i hyn gynnwys lefelau cyfeirio diagnostig tomosynthesis.

Ymchwil feddygol

Dywedwyd wrthym nad oedd yr adran yn cymryd rhan mewn unrhyw dreialon ymchwil feddygol yn ymwneud â chysylltiadau ar y pryd.

Hawliau

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr ar gyfer hawliau. Roedd cwmpas y weithdrefn hon yn gyfyngedig ac roedd elfennau ar goll.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hawliau ymarferwyr cysylltiedig, radiograffwyr, radiograffwyr uwch-ymarfer, radiolegwyr, a chlinigol yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom nodi anghysondebau a gwallau a oedd yn cynnwys:

- diffyg manylion angenrheidiol yng ngweithdrefn y cyflogwr i sicrhau proses gyson ar gyfer hawliau deiliaid dyletswydd
- diffyg tystiolaeth o gyfnod adolygu hawliau rheolaidd
- diffyg cofnodion hyfforddiant neu asesiadau cymhwysedd i ategu hawliau ar gyfer clinigydd y fron
- cofnodion hyfforddiant neu asesiadau cymhwysedd annigonol i reoli ansawdd cyfarpar (profion lefel A)
- dull tameidiog o ymdrin â'r broses hawliau
- anghysondebau o ran y ffordd y rhoddwyd gwybod i ddeiliaid dyletswydd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan IR(ME)R
- proses adolygu dogfennau anghyson i'r staff ddangos eu hawliau presennol a'u meysydd ymarfer.

Dywedwyd wrthym fod hawliau'n cael eu hadolygu yn ystod yr arfarniad blynyddol. Tynnwyd sylw'r gwasanaeth at y ffaith nad oedd unrhyw dystiolaeth ar y pryd fod hawliau wedi'u hadolygu. Cynghorwyd y gwasanaeth y dylai sefydlu system i gofnodi pan fyddai hawliau wedi cael eu hadolygu a gwneud newidiadau priodol i'r ffurflen hawliau at y diben hwn.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â hawliau yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Hysbysiad Gwella a'r cynllun yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Pennaeth y rhaglen yn Bron Brawf Cymru oedd yn rhoi hawliau i'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Roedd matrices cynhwysfawr a rannwyd â Bron Brawf Cymru. Defnyddiwyd y matrices hwn fel sicrwydd yn ystod y broses hawliau, yn enwedig ar gyfer yr arbenigwyr ffiseg feddygol.

Adnabod cleifion

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr yn ymwneud ag adnabod cleifion. Nid oedd yn cynnwys digon o fanylion ar sut y dylid adnabod cleifion, pwy ddylai wneud hyn a ble y dylid cofnodi'r wybodaeth. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â gweithredwyr a gofyn iddynt gadarnhau'r weithdrefn ar gyfer adnabod cleifion, pwy oedd yn cwblhau pob elfen, ble y gofynnwyd y cwestiynau, a sut y cafodd y wybodaeth hon ei chofnodi a'i chadw. Dangosodd trafodaethau â'r staff anghysondebau o ran sut roedd pob aelod yn cofnodi i ddangos bod gwiriadau adnabod wedi'u cwblhau.

Oherwydd diffyg manylion yng ngweithdrefn y cyflogwr, roedd yr agwedd ymarferol hon yn cael ei chyflawni mewn modd anghyson. Nid oedd proses glir ar gyfer cadw dogfennau i ategu archwiliadau o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R. O ganlyniad, ni all y cyflogwr sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas ag adnabod cleifion ac, felly, nid oedd y prosesau hyn yn cydymffurfio ag IR(ME)R 2017.

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau gweithdrefn y cyflogwr a sicrhau bod proses gadarn ar waith ar gyfer cynnal a chofnodi gwiriadau adnabod. Oherwydd diffyg eglurder a manylion yng ngweithdrefn y cyflogwr, y ffaith mai dim ond ychydig o dystiolaeth ddogfennol oedd ar gael i ni ei gweld, a'r prosesau anghyson a ddisgrifiwyd, cyhoeddodd AGIC Hysbysiad Gwella. **Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud ag adnabod cleifion yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017.** Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hunanasesu a gyflwynwyd gan y lleoliad yn dangos bod gweithdrefn y cyflogwr ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi. Gwnaethom edrych ar y weithdrefn a'i thrafod â'r staff perthnasol. Gwnaethom nodi bylchau, gan gynnwys y canlynol:

- Nid oedd y weithdrefn yn nod pa ddeiliad dyletswydd oedd yn gyfrifol am gynnal gwiriad beichiogrwydd er myn holi am hanes y teulu, cadw golwg am glefyd Hodgkin
- Hefyd, ni ofynnwyd i gleientiaid a oeddent yn bwydo ar y fron, er bod y llawlyfr ansawdd lleol yn nodi'r effaith bosibl ar ansawdd diagnosis

- Nid oedd y weithdrefn yn nodi ble y cofnodwyd y trafodaethau hyn.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud ag unigolion o oedran beichiogi a'i diweddarau yn unol ag arferion gorau.

Rhannu gwybodaeth am fanteision a risgiau

Fel rhan o'r broses o werthuso'r ffurflen hunanasesu, cadarnhawyd bod pob client a wahoddwyd am brawf sgrinio'r fron yn cael copi o daflen 'Sgrinio'r fron yn y GIG, Eich helpu chi i benderfynu.'

Roedd pob cleient a wahoddwyd am brawf sgrinio fel rhan o raglen hanes y teulu yn cael copi o daflen 'Esbonio Sgrinio'r Fron' Bron Brawf Cymru. Roedd y taflenni hyn yn nodi manteision a risgiau sgrinio'r fron, gan gynnwys risgiau ymbelydredd.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod llinell iaith ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, pe bai angen. Roedd y gwasanaeth wrthi'n treialu dyfais cyfieithu symudol ar yr unedau symudol, a oedd wedi cael ei chroesawu.

Gwerthusiadau clinigol

Gwnaethom edrych ar y ffurflen hunanasesu a chadarnhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer cynnal gwerthusiadau clinigol. Byddai pob set o famogramau sgrinio yn cael ei darllen yn ddall dwywaith gan ddarllenydd cymeradwy (a allai fod yn Radiologydd Ymgynghorol, yn Glinigydd y Fron, yn Radiograffydd Ymgynghorol neu'n Radiograffydd Uwch-ymarfer). Byddai'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi ar system gyfrifiadurol sgrinio'r fron. Mewn achosion lle byddai cleientiaid wedi cael eu hadalw gan un o'r darllenyddwr neu'r ddau ohonynt, byddai'r delweddau'n cael eu hadolygu cyn dod i gonsensws ynghylch a ddylid adalw'r cleient. Byddai taflen asesu glinigol yn cael ei chwblhau a'i ffeilio yn nodiadau'r cleient.

Byddai delweddau'r asesiad yn cael eu gwerthuso yn ystod y clinig asesu a'u cofnodi yn nodiadau'r clinig.

Cysylltiadau at ddibenion delweddu anfeddygol

Cadarnhaodd y gwasanaeth nad yw'n cynnal cysylltiadau at ddibenion delweddu anfeddygol.

Dyletswyddau'r cyflogwr: archwiliadau clinigol

Rhannwyd y broses ar gyfer rhaglen archwiliadau clinigol ynghyd ag enghreifftiau drwy'r ffurflen hunanasesu Ar y cyfan, gwelsom fod y rhaglen archwiliadau clinigol yn cyd-fynd â safonau Rhaglen Sgrinio'r Fron y GIG. Roedd y rhaglen yn cael ei llywio gan yr adolygiad o ddata sicrhau ansawdd bob blwyddyn. Roedd hyn yn helpu i ganolbwyntio ar agweddau ar y gwasanaeth yr oedd angen rhoi rhagor o sylw

iddynt. Caiff trafodaethau am ganlyniadau archwiliadau eu nodi drwy'r cofnodion cyfarfodydd a welsom.

Roedd rhai o'r archwiliadau clinigol a welsom yn ystod yr arolygiad yn anghyson o ran y ffordd roedd canfyddiadau archwiliadau wedi'u cyflwyno, ac nid oeddent yn cynnwys tystiolaeth o ddadansoddiad manwl o'r canlyniadau.

Bydd datblygu proses gyson ar gyfer archwilio a chynnal dadansoddiad manwl yn helpu'r staff i gau'r ddolen adborth er mwyn ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dull safonol ar waith i adrodd ar archwiliadau, y gwersi i'w dysgu, y camau i'w cymryd mewn perthynas â chanlyniadau archwiliadau ac a oes angen cynnal ail archwiliad.

Nid oedd yr adran yn cynnal unrhyw archwiliadau o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R. Cadarnhaodd y staff yn ystod yr arolygiad na chaiff tystiolaeth gyson ac wedi'i dogfennu ei chadw fel mater o drefn i gefnogi archwiliadau effeithiol o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod proses briodol ar waith ar gyfer cadw dogfennau IR(ME)R ac y caiff archwiliadau priodol o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R eu cychwyn a'u cwblhau, ac y caiff y canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu eu rhannu'n briodol.

Dyletswyddau'r cyflogwr: cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau ymbelydredd yn ymwneud â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau ymbelydredd yn cael eu cofnodi ar system Datix ac y byddai'r tîm ffiseg feddygol yn cael gwybod amdanynt, a fyddai'n cynnig cyngor ac yn cadarnhau a oedd angen rhoi gwybod i AGIC am y digwyddiad. Byddai'r holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r unigolyn dan sylw i ddechrau drwy sgwrs anffurfiol, cyn cael eu cofnodi ar system Datix. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff yn yr adran fod pob digwyddiad, digwyddiad a fu bron â digwydd, canmoliaeth a chwyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Byddai unrhyw gamau gweithredu gofynnol a nodwyd yn cael eu cymryd yn annibynnol. Ni oedd yn glir a oedd y cyflogwr o dan IR(ME)R yn cael gwybod am ddigwyddiadau nad oedd angen rhoi gwybod amdanynt, digwyddiadau a fu bron â digwydd neu dueddiadau.

Mae dau wasanaeth ar wahân yng Nghymru; gwasanaeth sgrinio'r fron a'r gwasanaeth symptomatig, sydd â systemau TG ar wahân.

Roedd risg y gallai atgyfeiriadau gael eu dyblygu, lle byddai cleient yn cael gwahoddiad am brawf sgrinio er ei fod ar y llwybr symptomatig, gan na fyddai hynny wedi'i gofnodi ar systemau gweinyddol gwasanaeth sgrinio'r fron.

Nododd y gwasanaeth nad oedd gan weithredwyr fynediad at brofion delweddu blaenorol a gynhaliwyd gan wasanaeth symptomatig yn y Bwrdd lechyd a'i fod yn dibynnu ar y cleient i ddarparu gwybodaeth gywir am y mamogramau a gafodd yn ystod y chwe mis blaenorol. Nid oedd proses ar waith ar gyfer gwirio hanes profion delweddu blaenorol a gynhaliwyd gan y Bwrdd lechyd os na allai'r cleient gadarnhau'r wybodaeth hon. Ni welsom dystiolaeth i gadarnhau bod y cadarnhad ar lafar hwn yn cael ei gofnodi na'i gadw er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â gwybodaeth am brofion delweddu blaenorol yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod digwyddiadau'n cael eu codi yng nghyfarfod blynyddol y bwrdd diogelu rhag ymbelydredd. Caiff digwyddiadau Datix hefyd eu trafod yng nghyfarfodydd bwrdd y rhaglen. Yn ystod cyfarfod blynyddol y bwrdd diogelu rhag ymbelydredd, byddai'r arbenigwyr ffiseg feddygol yn cyflwyno crynodeb o'r digwyddiadau a fu, wedi'u rhestru yn ôl thema.

Byddai gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu drwy gyfarfodydd staff. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw beth yr oedd angen ei rannu ar frys yn cael ei rannu drwy dulliau amgen.

Yn ystod ein trafodaethau â'r rheolwyr, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw adroddiadau dadansoddi tueddiadau cyffredinol ffurfiol ar gyfer digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd. Fodd bynnag, byddai digwyddiadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd a gofnodwyd.

Rhaid i'r cyflogwr ystyried dadansoddi tueddiadau digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd a'u cymharu â chyfnodau blaenorol er mwyn helpu'r gwasanaeth i nodi tueddiadau posibl mewn perthynas â digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd.

Wrth edrych ar y Gweithdrefnau Diogelu rhag Ymbelydredd yn ymwneud â chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol, gwnaethom nodi mai'r cyfarwyddyd oedd y dylid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau lle roedd y claf wedi cael dos (posibl) o fwy na thair gwaith y dos disgwylidig. Nododd y gwasanaeth nad yw hyn yn adlewyrchu'r ymarfer presennol yn y sefydliad. Gwnaethom gynghori nad yw hyn chwaith yn cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol, a bod angen diweddarau'r canllawiau hynny.

Nid yw dweud yr 'amheuir bod cysylltiad yn fwy na'r hyn a fwriadwyd' yn cyd-fynd â therminoleg gyfredol. Cynghorwyd y lleoliad y dylai ddiweddarau'r weithdrefn yn unol â'r canllawiau ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol ac ystyried defnyddio'r term 'cysylltiadau damweiniol ac anfwriadol sylweddol'. At hynny, yn adran C9.4 o'r Gweithdrefnau Diogelu Rhag Ymbelydredd, roedd cyfeiriad at y meini prawf ar gyfer hysbysu, ond nid oedd hyn yn cyfeirio at y canllawiau cyfredol ar Gysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol Sylweddol. Cynghorwyd y dylid cysylltu â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol.

Oherwydd yr amrywiaeth o bryderon a nodwyd wrth edrych ar y dogfennau a'r prosesau yn ymwneud â chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol, mae'n rhaid i'r cyflogwr gynnal adolygiad ar raddfa fawr a diweddarau'r weithdrefn hon. Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â hyn yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Dyletswyddau atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr a'r Weithdrefn Diogelu rhag Ymbelydredd a oedd yn cynnwys hawliau atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr i gyflawni eu dyletswyddau. Mae angen i weithdrefn y cyflogwr fod yn fwy cadarn a chynnwys y canlynol:

- y broses ar gyfer rhoi gwybod i ddeiliaid dyletswydd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan IR(ME)R
- y broses ar gyfer asesu a chymeradwyo hyfforddiant a chymwyseddau
- sut roedd staff yn dangos eu hawliau a'u meysydd ymarfer
- cyfnod adolygu ar gyfer hawliau ar draws pob deiliad dyletswydd

Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw, ar bob lefel, bob amser yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan IR(ME)R a gwelwyd bod dealltwriaeth annigonol o IR(ME)R ar bob lefel yn gyffredinol. Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â dealltwriaeth deiliaid dyletswydd o IR(ME)R yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B.

Cyfiawnhad dros gysylltiadau unigol

Gwnaethom edrych ar y 'Canllawiau Cyfiawnhau' ac awgrymu y dylai'r lleoliad newid y teitl i 'Canllawiau Awdurdodi' er mwyn helpu'r staff i ddeall y broses awdurdodi. Hefyd, nid oedd y ddogfen hon yn cynnwys mesurau rheoli fersiynau fel rhif y fersiwn a dyddiad adolygu.

Dangosodd ein trafodaethau â'r staff fod rhywfaint o ddryswch ynghylch y defnydd o'r canllawiau awdurdodi a oedd ar waith, a'u diben.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn disgrifio'r broses awdurdodi a sut y dylai gael ei chofnodi. Lle roedd yr ymarferydd wedi dirprwyo awdurdodiad i'r gweithredwr o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), roedd canllaw ar gael a oedd yn nodi'r meini prawf awdurdodi ar gyfer y gweithredwr. Nododd y gwasanaeth fod awdurdodiad yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r clinig asesu. Wrth edrych ar gofnodion, gwelsom nad oedd hyn yn wir ac na allai'r staff ddangos tystiolaeth o awdurdodiad.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, daeth yn amlwg bod diffyg dealltwriaeth o'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi ymhlith y staff y gwnaethom siarad â nhw, a hynny ym mhob grŵp staff. Wrth edrych ar gofnodion, ni welsom unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi o gyfiawnhad ac awdurdodiad ar gyfer atgyfeiriadau am brawf sgrinio neu glinig asesu, nac ar gyfer adalw cleientiaid am resymau technegol. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl gweld a oedd cyfiawnhad dros hynny na nodi'r deiliad dyletswydd a gyflawnodd y dasg hon. Oherwydd diffyg tystiolaeth o awdurdodiad, nid oedd yn bosibl i'r staff gynnal archwiliadau o gydymffurfiaeth yn y maes hwn.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi. Rhaid i dystiolaeth o awdurdodiad gael ei chofnodi a'i harchwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag IR(ME)R.

Optimeiddio

Clywsom fod ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau bod dosau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd y ffurflen hunanasesu yn cadarnhau bod y technegau mamogram yn dilyn y safonau cenedlaethol.

Roedd y gwasanaeth ffiseg feddygol yn cynnal arolygon blynyddol o ddosau cleifion er mwyn cadarnhau bod y dosau a roddwyd i gleifion ar bob darn o gyfarpar yn unol â lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod rhaglen Sicrhau Ansawdd a phroses cynnal a chadw arfaethedig ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cyrraedd safonau cenedlaethol.

Comisiynwyd cyfarpar gyda chymorth gan y gwneuthurwr er mwyn optimeiddio cysylltiadau o'r dechrau. Roedd protocolau cysylltiadau wedi'u harddangos ym mhob ystafell i gynghori gweithredwyr.

Gofalwyr neu gysurwyr

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â rhoi cyngor ac arweiniad ar gysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr. Gwnaethom edrych ar y ddogfen hon a nodi nad oedd yn ddigon manwl, nac yn cyfateb i ymarfer clinigol.

Ni allai'r deiliaid dyletswydd y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau'n gyson y broses ar gyfer nodi a chofnodi cysylltiad gofalwr neu gysurwr. Yn ystod yr arolygiad, daeth yn amlwg nad oedd ymarfer clinigol yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau o ran yr hyn a gofnodwyd mewn perthynas â'r gofalwr a'r cysurwr. O ran cofnod manylion y gofalwr neu'r cysurwr, dim ond y gydberthynas â'r cleient a gofnodwyd. Felly, ni ellid cymhwyso'r cyfyngiadau dos blynyddol ar gyfer y gofalwr a'r cysurwr gan nad oedd modd eu nodi'n ôl-weithredol.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â gofalwyr a chysurwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag IR(ME)R ac ymarfer clinigol.

Cyngor arbenigol

Gwnaethom gadarnhau bod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael cyngor arbenigol pan fo angen. Roedd yn gadarnhaol nodi cyfranogiad yr arbenigwyr ffiseg feddygol, a oedd yn amlwg yn ymgysylltu â'r adran er nad oeddent ar y safle bob dydd.

Gwnaethom nodi bod cymorth y tîm ffiseg feddygol yn dda. Gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy ei ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, yn ogystal â'i gyngor i'r staff yn ôl y gofyn. Roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan annatod o reoli ansawdd, caffael a chomisiynu cyfarpar yn Bron Brawf Cymru. Roeddent hefyd wedi bod yn gyfrifol am lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer tomosynthesis.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Gwnaethom edrych ar restr cyfarpar a oedd yn dangos bod pob darn o gyfarpar pelydr-X a ddefnyddiwyd yn Bron Brawf Cymru, Llandudno wedi'i osod yn 2022/2023. Roedd y rhestr cyfarpar yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

Disgrifiwyd y broses ar gyfer comisiynu a phrofi cyfarpar newydd, ac edrychwyd ar ffurflenni a phrosesau priodol. Cadarnhawyd bod pob darn o gyfarpar yn cael ei gomisiynu gan y tîm ffiseg feddygol. Fel rhan o'r broses gomisiynu, roedd y tîm ffiseg feddygol a'r radiograffwyr yn cynnal profion olynol dros dri diwrnod. Roedd y darlenniadau o'r profion hyn yn cael eu defnyddio i bennu llinellau sylfaen ar gyfer

profion ansawdd yn y dyfodol. Caiff y llinellau sylfaen eu hadolygu ar ôl gosod tiwb neu synhwyrdd newydd, ailgalibradu neu ddiweddarau meddalwedd.

Roedd y cofnodion rheoli ansawdd yn cynnwys dangosfwrdd i nodi unrhyw fethiannau neu fylchau wrth gynnal profion. Roedd y tîm ffiseg feddygol yn adolygu'r dangosfyrddau hyn bob wythnos. Roedd y cymorth gan y tîm ffiseg feddygol yn y maes hwn yn arfer da a chanmoladwy.

Roedd gan y gwasanaeth ffurflen trosglwyddo, sef fersiwn wedi'i haddasu o ffurflen Cymdeithas y Darparwyr Technoleg Gofal Iechyd ar gyfer Delweddu, Radiotherapi a Gofal, wedi'i haddasu ar gyfer anghenion y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr er mwyn sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd yn cael ei dilyn mewn perthynas â'r cyfarpar. Roedd tystiolaeth dda bod y rhaglen sicrhau ansawdd yn cael ei chynnal a'i chofnodi.

Diogel

Rheoli risg

Wrth fynd o amgylch yr adran, gwnaethom nodi bod cyfarpar newydd a bod yr amgylchedd yn fodern, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd yn cynnig amgylchedd golau, glân, clir a chroesawgar i'r cleifion. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y cleifion ac unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ìoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau a threfniadau dihalogi addas ar waith. Roedd pob ardal yr oedd modd i gleifion fynd iddi yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd y cyfarpar hefyd yn ymddangos yn lân a disgrifiodd y staff weithdrefnau glanhau a dihalogi addas.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn y cyfleuster a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol addas ar gael iddynt yn hawdd. Gwelsom hefyd fod weips glanhau ar gael i ddihalogi cyfarpar a rennir a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl yn hyn o beth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod yr adran yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, yn eu barn nhw.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio, a bod yr amgylchedd yn eu galluogi i reoli heintiau yn effeithiol. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Diogelu plant a diogelu oedolion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau diogelu lechyd Cyhoeddus Cymru a ble i gael gafael arnynt. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o'r staff, a oedd yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu.

Effeithiol

Cofnodion cleifion

Ni welsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r cofnodion a ddefnyddir yn yr adran. Nid oedd y systemau, y prosesau na'r ffurflenni a welsom yn cefnogi cydymffurfiaeth ag IR(ME)R. **Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â'r broses atgyfeirio a chadw cofnodion cysylltiedig yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom geisio edrych ar gofnodion atgyfeirio cleientiaid. Mewn rhai achosion, ni allai'r tîm arolygu arfarnu dogfennaeth atgyfeirio cleientiaid presennol neu flaenorol gan nad oedd y ffynhonnell wybodaeth sylfaenol wedi'i chadw yn ffeil y cleient. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r cyflogwr archwilio cydymffurfiaeth y systemau, prosesau a ffurflenni a welsom ag IR(ME)R gan nad oedd y ddogfennaeth ar gael.

Roedd y cofnodion a oedd ar gael i ni edrych arnynt yn gyfyngedig neu'n anghyflawn. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn cynnwys anghysondebau o ran gwiriadau adnabod. Nid oedd yn bosibl nodi pwy a gyflawnodd pob agwedd ar y cysylltiad o'r dogfennau cyfyngedig a welsom. Roedd y ffurflenni a'r prosesau a oedd ar waith yn ei gwneud hi'n anodd cadw cofnodion cleientiaid ac yn gwneud y

broses yn ddryslyd i'r staff. Disgrifiodd rhai o'r staff y gwiriadau ychwanegol a gaiff eu cynnal cyn y cysylltiad; fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnwys yng ngweithdrefnau'r cyflogwr nac wedi'u nodi mewn ffordd gyson ar ffurflen SASP2.

Dywedwyd wrthym fod gan Bron Brawf Cymru Gogledd Cymru yriant a rennir mewnol lle y caiff ffurflenni asesu a llythyrau a rennir â'r meddyg teulu eu storio. Dim ond gwasanaeth Bron Brawf Cymru allai gael mynediad i'r ffolder hwn.

Nid oedd gwybodaeth ddigidol ar gael i'r staff a oedd yn gweithio ar yr unedau mamograffi symudol heb gysylltiad Wi-Fi digonol i'w galluogi i gael mynediad i'r gyriant a rennir neu ddogfennau neu weithdrefnau eraill a gaiff eu storio'n electronig.

Cadarnhawyd bod gan bob un o safleoedd Bron Brawf Cymru ei yriant a rennir ei hun. Wrth edrych ar y gyriant a rennir sydd ar gael i staff Bron Brawf Cymru Llandudno a'i ddadansoddi, gwelsom nad oedd yn bosibl i'r staff chwilio drwy'r ddogfennaeth oherwydd y ffordd yr oedd wedi'i chadw.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud ag argaeledd gweithdrefnau'r cyflogwr a gwybodaeth arall i bob deiliad dyletswydd yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Defnyddiwyd dogfennau papur drwy gydol taith y claf. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r prosesau ar gyfer cadw dogfennaeth

Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r canllawiau ar ddogfennau a gwybodaeth glinigol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei storio a'i chadw yn unol â'r polisi lleol a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Effeithlon

Effeithlon

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef fod y systemau a'r prosesau a oedd ar waith yn Bron Brawf Cymru, Llandudno yn gyson â'r rheini a oedd ar waith ar dri safle Bron Brawf Cymru ac y byddai gwelliannau a wnaed i brosesau a gweithdrefnau ar un safle yn cael eu hadlewyrchu ar y safleoedd eraill.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Bron Brawf Cymru.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Rhannodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau a ddarperir yn Bron Brawf Cymru, Llandudno a'u profiad o weithio yno. Cawsom gyfanswm o 10 o ymatebion gan aelodau o'r staff. Ni chwblhaodd pob ymatebydd yr holiadur hyd at y diwedd, a chafodd rhai cwestiynau eu gadael yn wag ym mhob rhan.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Cadarnhawyd mai Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y cyflogwr dynodedig o dan IR(ME)R, a oedd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn Ymddiriedolaeth y GIG roi IR(ME)R ar waith.

Darparwyd manylion i ni am strwythur sefydliadol Bron Brawf Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y ddogfennaeth a gyflwynwyd cyn yr arolygiad hwn.

Roedd yn anodd sefydlu llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan IR(ME)R gan fod y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd yn nodi bod y rolau hyn wedi'u hamlinellu yn y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd a gyflwynwyd cyn yr arolygiad. Dogfen ddrafft oedd hon, a oedd ar gael i'r staff drwy eu system ar-lein.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod prosesau ffurfiol ar waith i ystyried a chadarnhau polisiau a gweithdrefnau drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a bod y dogfennau hyn ar gael i'r staff. Roedd y Prif Weithredwr yn eistedd ar y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ac yn ymwybodol o'r broses o gymeradwyo polisiau drwy'r pwyllgor hwn. Er y dywedwyd wrthym fod y broses hon ar waith, yn ymarferol roedd yn ymddangos bod y broses hon wedi methu wrth roi polisiau a gweithdrefnau yn ymwneud ag IR(ME)R ar waith, gan nad oeddent wedi'u cadarnhau drwy'r pwyllgor hwn.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â defnyddio polisiau, gweithdrefnau a dogfennau nad ydynt wedi'u cadarnhau yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Nid oedd gan y deiliaid dyletswydd IR(ME)R y gwnaethom siarad â nhw ddigon o ddealltwriaeth a gwybodaeth mewn perthynas ag IR(ME)R na sut mae'r rheoliad yn berthnasol i ymarfer clinigol. Dylai fframwaith IR(ME)R ddarparu cymorth i'r staff a sicrhau diogelwch cleientiaid. Nid oedd y staff bob amser yn ymwybodol o'r fframwaith roeddent yn gweithio oddi mewn iddo.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â dealltwriaeth a gwybodaeth deiliaid dyletswydd mewn perthynas ag IR(ME)R 2017 yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

O ran hyfforddiant ar IR(ME)R, roedd y cofnodion yn dogfennu hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer gweithredwyr mewn perthynas â defnyddio a phrofi cyfarpar yn annigonol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant na chadarnhad o gymhwysedd ar gyfer gweithredwyr a oedd yn cynnal profion sicrhau ansawdd, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar gyfarpar ar gyfer clinigydd y fron.

Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â hyfforddiant a chymhwysedd yn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd i Bron Brawf Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth ag IR(ME)R 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun yr Hysbysiad Gwella yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar y rhaglen hyfforddi a'r cofnodion hyfforddiant ar gyfer mamograffwyr, a chadarnhau bod y rhain ar waith.

Gwnaethom edrych ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol Ymddiriedolaeth y GIG a chadarnhau bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yr adran yn fwy na 80%. Roedd system briodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a phawb a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod cydymffurfiaeth ag arfarniadau yn fwy na 74% a bod dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y rheini nad oeddent wedi cwblhau eu harfarniad.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gyfarwydd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall. Cafodd hyn hefyd ei gadarnhau yn yr holiadur, lle roedd pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn gyfarwydd â'r

Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, ac yn deall ei rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw a phawb a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, a'u bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd adborth y staff y gwnaethom siarad â nhw am ddiwylliant Bron Brawf Cymru yn gadarnhaol ar y cyfan. Cadarnhaodd aelodau unigol o'r staff fod Bron Brawf Cymru yn lle cadarnhaol i weithio a bod eu cymheiriaid a'u rheolwyr llinell uniongyrchol yn gefnogol.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr uwch-aelodau o'r staff yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod amrywiaeth eang o brosesau a chyfarfodydd ar waith i rannu gwybodaeth a diweddariadau â'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd tîm, bwletinâu e-bost ac apiau ar-lein.

Nododd hanner y staff a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth benderfynu ar newidiadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith.

Rhaid i Bron Brawf Cymru, Llandudno, fyfyrion ar ymatebion y staff sy'n awgrymu nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, a rhoi gwybod i AGIC pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a chydymffurfiaeth reoliadol lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B - Cynllun Hysbysiad Gwella

Gwasanaeth: Bron Brawf Cymru, Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 28 ac 29 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>1. Rhaid i'r cyflogwr roi manylion penodol i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol mewn perthynas â gweithdrefnau'r cyflogwr:</p> <ul style="list-style-type: none">Sicrhau eu bod yn cael eu diwygio a'u diweddarau i adlewyrchu ymarfer clinigol cyfredolSicrhau y cytunir arnynt ac y cânt eu cadarnhau cyn eu bod ar gael i bob deiliad dyletswyddSicrhau bod pob deiliad dyletswydd yn eu darllen ac yn cydymffurfio â nhw. <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 6, Atodlen 2 (1)</p>	<p>Cynhaliwyd cyfarfod o'r gweithgor ar 6 Medi ar ôl cael copi o'r cynllun gwella. Rhoddwyd cyfarfodydd dyddiol ar waith.</p> <p>Dechreuodd gwaith i adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr ar 7 Medi. Mae'r gweithgor wedi diweddarau'r dogfennau yn unol â'r fframwaith. Dogfen "Breast screening: guidance on implementation of Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations (2017)" – GOV.UK (www.gov.uk).</p> <p>Mae hyn wedi cynnwys manylion sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd yn y Gweithdrefnau Diogelu rhag Ymbelydredd a'r broses yn ymwneud ag IR(ME)R yn y Llawlyfr Ansawdd cyfredol. Mae'r dogfennau hyn yn ddogfennau ar wahân sy'n cynnwys dogfen gweithdrefnau cyffredinol y cyflogwr a 12 o weithdrefnau manwl y cyflogwr, ac maent yn cynnwys yr holl brosesau yn ymwneud ag IR(ME)R mewn un lle.</p>	<p>SH</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 23 Medi.</p> <p>Mae gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'u diwygio a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer clinigol cyfredol. Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu cadarnhau ar 23 Medi, a chawsant eu hanfon at bob deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R ar 23 Medi.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlenni wedi'u dogfennu ar gyfer cadw cofnodion • tystiolaeth ddogfennol o wiriadau adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio neu'r sawl a gyflawnodd y dasg hon • proses i gofnodi tystiolaeth o gyfiawnhad neu awdurdodiad at ddibenion dadansoddi neu adolygu ôl-weithredol • proses i ddangos tystiolaeth o atgyfeiriwr unigol ar gyfer cleifion biopsi neu glinig asesu • tystiolaeth o feini prawf atgyfeirio ar gyfer mamograffi sgrinio <p>Anfonwyd e-bost at bob deiliad dyletswydd ddydd Mawrth 17 Medi yn esbonio'r adborth gan AGIC a'r gofyniad i gymryd camau brys ac y byddai Gweithdrefnau newydd y Cyflogwr yn cael eu hanfon drwy e-bost ar 23 Medi.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod staff mewn un rhanbarth i drafod dull gweithredu a newidiadau er mwyn cael adborth i lywio'r gwaith o ddatblygu'r dogfennau.</p> <p>Cwblhawyd y gwaith adolygu a diweddarau erbyn 23 Medi.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y cytunir ar y gweithdrefnau ac y cânt eu cadarnhau cyn eu bod ar gael i bob deiliad dyletswydd - cwblhawyd ar 23 Medi <p>Er mwyn bodloni'r terfynau amser ar gyfer cytuno ar y gweithdrefnau a'u cadarnhau, cafodd y dogfennau eu hadolygu gan Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Prif Weithredwr, ac ar ôl ystyried y newidiadau, cawsant eu cymeradwyo ddydd Llun 23 Medi gan y Prif Weithredwr a'r cyflogwr o dan IR(ME)R.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob deiliad dyletswydd yn darllen y gweithdrefnau ac yn cydymffurfio â nhw - 23 Medi <p>Er mwyn bodloni'r terfynau amser, anfonwyd gweithdrefnau'r cyflogwr at yr holl ddeiliaid dyletswydd drwy e-bost ddydd Llun 23 Medi a gofynnwyd iddynt gadarnhau eu bod wedi eu derbyn a'u darllen erbyn 27 Medi. Eir ar drywydd hyn yn brydlon ar gyfer staff sydd ar wyliau a staff nad ydynt wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn y dogfennau. Darparwyd copïau papur ar unedau symudol a safleoedd sefydlog ledled Cymru. Gofynnwyd i ddeiliaid dyletswydd gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau sydd ganddynt ar y dogfennau i'w rheolwr llinell, a chaiff y rhain eu coladu'n ganolog i lywio unrhyw ddiwygiadau.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff cyfarfodydd hyfforddiant staff eu cynnal ar draws y rhanbarthau rhwng 24 Medi a 9 Hydref er mwyn sicrhau negeseuon cyson a gwirio dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diwygiedig a'r newidiadau i brosesau, fel bodd modd eu rhoi ar waith yn ddiogel. Y Rheolwyr Radiograffeg fydd yn cynnal yr hyfforddiant hwn gyda'u timau rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant gloywi ar reoliadau IR(ME)R, rolau staff o dan y rheoliad ar gyfer deiliaid dyletswydd a sut i gael gafael ar y gweithdrefnau a gwybodaeth berthnasol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys asesiad anffurfiol i wirio dealltwriaeth y staff o'r rheoliadau a'u perthnasedd i'w rôl fel deiliaid dyletswydd o dan IR(ME)R.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn gysylltiedig â'r cam gweithredu o dan Welliant 7 a bydd yn rhoi cyfle i drafod y rhain mewn cyfarfodydd tîm, a bydd hynny'n sicrhau negeseuon cyson ac yn gwirio dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diwygiedig a'r newidiadau i brosesau, fel bod modd eu rhoi ar waith yn ddiogel.</p>		
<p>2. Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion penodol i AGIC ynglŷn ag adolygu polisiâu a gweithdrefnau, a rhaid i hyn gynnwys mesurau rheoli ansawdd.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 6 (5) (b), Atodlen 2 1(d)</p>	<p>Mae'r manylion hyn wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau diwygiedig fel bod y broses yn glir a bod modd ei harchwilio.</p> <p>Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • prosesau sicrhau ansawdd a chadarnhau wedi'u cofnodi 	SH	Cwblhawyd erbyn 23 Medi.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		.		
<p>3. Rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd i AGIC fod y broses atgyfeirio yn cydymffurfio ag IR(ME)R.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 6 (5) (a) Rheoliad 10(5)</p>	<p>Mae gwaith i adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'i gwblhau. Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlenni wedi'u dogfennu ar gyfer cadw cofnodion • tystiolaeth ddogfennol o wiriadau adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio neu'r sawl a gyflawnodd y dasg hon • tystiolaeth o gyfiawnhad neu awdurdodiad at ddibenion dadansoddi neu adolygu ôl-weithredol • tystiolaeth o atgyfeiriwr unigol ar gyfer cleifion biopsi neu glinig asesu • tystiolaeth o feini prawf atgyfeirio ar gyfer mamograffi sgrinio <p>Mae hyn yn gofyn am newidiadau i'r system TG a ffurflen SASP2. Newidiadau i'r broses o gofnodi gwiriad adnabod; gwiriad beichiogrwydd a bwydo ar y fron; a newidiadau i derminoleg o 'mamograffydd' i 'gweithredwr IR(ME)R'. Cytunodd y gweithgor ar y newidiadau hyn ar 10 Medi a gwnaed cais i'r tîm digidol ar 11 Medi. Cytunodd y tîm digidol i flaenoriaethu'r gwaith hwn ar 11 Medi a chafodd y newidiadau eu gwneud i ffurflen SASP2 erbyn 23 Medi.</p> <p>Caiff y newidiadau eu rhoi ar waith yn ddigidol erbyn diwedd mis Hydref gan fod angen gwneud</p>	SH	<p>Cwblhawyd erbyn 23 Medi heblaw'r newidiadau digidol, a gaiff eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref er mwyn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn ddiogel.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwiriadau ar y system TG i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sydd eu hangen i'r dyddlyfr i'w roi ar waith ar yr NBSS ar yr unedau symudol.</p> <p>Hyd nes y bydd y system TG wedi'i rhoi ar waith yn llawn, bydd ffurflen SASP2 yn cofnodi'r wybodaeth hon, a chaiff hon ei chadw yn unol â'r weithdrefn.</p>		
<p>4. Rhaid i'r cyflogwr roi manylion penodol i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer y gwasanaeth hwn.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 4 Tachwedd 2024</p>	<p>Rheoliad 6</p>	<p>Mae'r gweithdrefnau diwygiedig wedi'u cymeradwyo gan y Prif Swyddog Gweithredol fel Cyflogwr o dan IR(ME)R.</p> <p>Caiff y rhain eu rhannu â Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd Bwrdd Rhaglen Bron Brawf Cymru (cwblhawyd 25 Medi); Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Sgrinio (1 Hydref) a Thîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Y dyddiad adolygu ar gyfer y fersiwn gyntaf o'r dogfennau yw Mawrth 2025 er mwyn sicrhau y gellir cynnal proses adolygu gynharach i gadarnhau bod y rhain yn gweithio'n dda neu a oes unrhyw adborth i'w hadolygu neu eu newid.</p> <p>Pan gaiff y dogfennau eu hadolygu yn y dyfodol, bydd hyn yn digwydd drwy'r broses lywodraethu ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Proses adolygu safonol: 	<p>SH</p>	<p>Disgwylir iddo gael ei gwblhau o fewn yr amserlen.</p> <p>Mae cyfarfodydd staff wedi'u cynllunio rhwng 24 Medi a 9 Hydref er mwyn cynnal sesiynau ar y gweithdrefnau diwygiedig. Adolygu ac archwilio'r broses weithredu erbyn 4 Tachwedd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff holl weithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr o dan IR(ME)R eu hadolygu bob dwy flynedd gan y Rheolwyr Radiograffeg, Pennaeth y Rhaglen a'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Eitem safonol ar agenda'r Grŵp Ffiseg Feddygol a'r Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd fydd nodi pa weithdrefnau a phrotocolau a gaiff eu hadolygu yn ystod y cylch blynyddol dilynol. Caiff y gweithdrefnau a'r protocolau a adolygwyd eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd.</p> <p>Yna, caiff y gweithdrefnau a'r protocolau a adolygwyd eu hystyried a'u cymeradwyo gan Fwrdd Rhaglen Bron Brawf Cymru. Caiff y rhain eu huwchgyfeirio at Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Sgrinio, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Sgrinio, ac yna Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Yna, caiff y gweithdrefnau a'r protocolau a adolygwyd eu huwchgyfeirio at y Prif Swyddog Gweithredol i'w cymeradwyo'n derfynol yn rhinwedd ei rôl fel Cyflogwr o dan IR(ME)R.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau i ddeddfwriaeth y tu allan i'r amserlen adolygu safonol: 		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bydd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn rhoi gwybod i gadeirydd y Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd am unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau IR(ME)R a fydd yn golygu bod angen adolygu'r gweithdrefnau neu'r protocolau yn gynt na'r adolygiad a gynlluniwyd.</p> <p>Bydd Pennaeth y Rhaglen yn rhoi gwybod i gadeirydd y Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd am unrhyw wersi a ddysgwyd neu ganllawiau diwygiedig gan Raglenni Sgrinio'r Fron eraill yng ngwledydd y DU a all olygu bod angen adolygu'r gweithdrefnau neu'r protocolau yn gynt na'r adolygiad a gynlluniwyd.</p> <p>Caiff adolygiadau hefyd eu cynnal yn ôl yr angen yn dilyn adborth gan staff, newidiadau i gyfarpar neu dechnegau newydd, neu wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.</p> <p>Mae cyfarfodydd staff wedi'u trefnu rhwng 24 Medi a 9 Hydref ar y gweithdrefnau diwygiedig er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymarfer cyson a chynnig cyfle i gael adborth gan staff ac adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr yn ymarferol.</p> <p>Caiff cynllun archwilio ei ddatblygu a'i roi ar waith i wirio cydymffurfiaeth ar draws y llwybr</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gan ddeiliaid dyletswydd - i'w gwblhau erbyn 4 Tachwedd.		
<p>5. Rhaid i'r cyflogwr ddarparu tystiolaeth i AGIC o gofnodion cyfredol ar gyfer yr holl hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd gan weithredwyr mewn perthynas â hyfforddiant a chymhwysedd digonol i ddefnyddio a phrofi cyfarpar.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 6 (3) (b) Rheoliad 17 (4), Atodlen 3</p>	<p>Mae hyn wedi'i roi ar waith ac mae'n cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> tystiolaeth o gofnodion hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer gweithredwyr sy'n cynnal profion Rheoli Ansawdd ar gyfarpar tystiolaeth o hyfforddiant ar gyfarpar ar gyfer clinigydd y fron 	DP	Cwblhawyd erbyn 23 Medi.
<p>6. Rhaid i'r cyflogwr ddarparu tystiolaeth i AGIC o broses wedi'i chofnodi gadarn ar gyfer adolygu hawliau deiliaid dyletswydd.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 6 (1), Atodlen 2 (1) (b)</p>	<p>Mae gwaith wedi'i gwblhau i adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr erbyn 23 Medi.</p> <p>Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o hawliau <p>Y Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol sy'n cadw'r cofnodion hawliau a chymhwysedd deiliaid dyletswydd o dan IR(ME)R. Caiff cofnodion hyfforddiant a chymhwysedd eu cadw ar gyfer unigolion yn ogystal â thaenlen gyffredinol yn nodi matrices cymhwysedd. Caiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn, neu'n amlach os bydd newidiadau i hawliau.</p>	SH	Cwblhawyd erbyn 23 Medi. Mae gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'u diwygio a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer clinigol cyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>7. Rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd i AGIC fod deiliaid dyletswydd yn meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth ddigonol mewn perthynas ag IR(ME)R i gyflawni eu dyletswyddau.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 7 Hydref 2024</p>	<p>Rheoliad 6 (2), Rheoliad 6 (3) (b) ac Atodlen 3</p>	<p>Caiff gwaith ei gwblhau i adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr a rhannu'r dogfennau y cytunwyd arnynt â deiliad dyletswydd.</p> <p>Mae cyfarfodydd hyfforddiant staff wedi'u cynllunio i'w cynnal ar draws y rhanbarthau rhwng 24 Medi a 9 Hydref a bydd hynny'n sicrhau negeseuon cyson ac yn gwirio dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diwygiedig a'r newidiadau i brosesau, fel bod modd eu rhoi ar waith yn ddiogel.</p> <p>Y Rheolwyr Rhanbarthol fydd yn cynnal yr hyfforddiant gyda'u tîm uniongyrchol a bydd hyn yn cynnwys pob deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R, a chaiff sesiynau dilynol eu cynnal ar gyfer staff sydd ar wyliau. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant gloywi ar reoliadau IR(ME)R, wedi'i lywio gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, rolau staff o dan y rheoliad ar gyfer deiliaid dyletswydd, adolygiad ac esboniad manwl o ddogfen gweithdrefnau cyffredinol y cyflogwr a 12 o weithdrefnau manwl y cyflogwr, a sut i gael gafael ar y gweithdrefnau a gwybodaeth berthnasol. Bydd y staff yn cwblhau asesiad anffurfiol i wirio eu dealltwriaeth yn dilyn yr hyfforddiant. Nod y sesiynau fydd sicrhau bod deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R yn deall fframwaith IR(ME)R a sut i'w gymhwyso at eu rôl yn y gwasanaeth Sgrinio'r Fron.</p> <p>Caiff hyfforddiant gloywi blynyddol ei gynnal a'i drafod gyda'n cydweithwyr yn RPS i gynnwys</p>	<p>DP</p>	<p>Mae cyfarfodydd hyfforddiant staff rhanbarthol wedi'u cynllunio rhwng 24 Medi a 9 Hydref. Amserlen ar gyfer cwblhau - 9 Hydref (am fod y cyfarfodydd staff a gynlluniwyd wedi'u trefnu o amgylch clinigau)</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hyfforddiant gloywi i bob deiliad dyletswydd yn Bron Brawf Cymru yn ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth gyfredol / diweddariadau i ddeddfwriaeth • Cyfrifoldebau deiliaid dyletswydd • Gweithdrefnau'r cyflogwr 		
<p>8. Rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd i AGIC fod mesurau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ddiagnostig flaenrol neu gofnodion meddygol ar gael i'w gweld cyn cyfiawnhau'r cysylltiad.</p> <p>Amserlen ar gyfer cwblhau 23 Medi 2024</p>	<p>Rheoliad 10 (5) Rheoliad 11 (4)</p>	<p>Sicrwydd bod mesurau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ddiagnostig flaenrol neu gofnodion meddygol ar gael i'w gweld cyn cyfiawnhau'r cysylltiad ar gyfer mamogramau sgrinio. Mae gweithdrefnau diwygiedig y cyflogwr yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer clinigol yn unol â'r terfynau amser.</p> <p>Mae gwelliannau wedi'u gwneud o ran y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlenni wedi'u dogfennu ar gyfer cadw cofnodion • tystiolaeth ddogfennol o wiriadau adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio neu'r sawl a gyflawnodd y dasg hon • tystiolaeth o gyfiawnhad neu awdurdodiad at ddibenion dadansoddi neu adolygu ôl-weithredol • tystiolaeth o atgyfeiriwr unigol ar gyfer cleifion biopsi neu glinig asesu • tystiolaeth o feini prawf atgyfeirio ar gyfer mamograffi sgrinio <p>Mae ffurflen SASP2 yn nodi'r mamogram sgrinio diwethaf ac mae Gweithredwr IR(ME)R yn gwirio</p>	<p>SH</p>	<p>Mae gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'u diwygio a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer clinigol cyfredol. Wedi'i gwblhau.</p> <p>Er mwyn lliniaru'r risg y bydd cyfranogwr sgrinio yn cael mamogram o fewn chwe mis i gael mamogram symptomatig blaenrol ymhellach, bydd y broses o ran gwiriadau yn cael ei hadolygu a'i chryfhau gan ystyried y canllawiau uchod.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â rhaglenni sgrinio'r fron eraill yn y</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>nad yw dyddiad y mamogram sgrinio diwethaf o fewn y chwe mis diwethaf. Os bydd yr unigolyn sy'n cael mamogram wedi'i adalw am resymau technegol, yna mae'n debygol y bydd y dyddiad hwn o fewn y chwe mis diwethaf.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw'n ymarferol gweld gwybodaeth ddiagnostig flaenorol neu gofnodion meddygol cyn cyfiawnhau'r cysylltiad ar gyfer mamogramau a gynhaliwyd yn y gwasanaeth symptomatig yn y byrddau iechyd yng Nghymru.</p> <p>Mae'r ddogfen ganllaw, Breast screening: guidance on implementation of Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations (2017) - GOV.UK (www.gov.uk), yn nodi</p> <p>bod y broses atgyfeirio ar gyfer sgrinio'r fron yn wahanol i'r broses ar gyfer atgyfeiriad unigol am ddelweddu y gwnaed cais amdano gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Caiff menywod eu gwahodd am brawf sgrinio os ydynt yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio yn unol â'r fanyleb gwasanaeth genedlaethol. Rhaid i'r llythyr gwahodd am brawf sgrinio gael ei anfon/llofnodi gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig, y rhoddwyd hawl atgyfeirio iddo gan y cyflogwr.</p> <p>Mae'n rhaid bod gan bob gwasanaeth sgrinio'r fron ganllawiau ar atgyfeirio sy'n amlinellu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu a yw menyw yn</p>		<p>DU i archwilio eu prosesau i liniaru'r risg hon (yn mynd rhagddo); trafod mynediad i systemau PACS byrddau iechyd na all gwasanaethau sgrinio'r fron gael mynediad iddynt ar hyn o bryd; archwilio a ellir rhoi proses ar waith yn systematig os bydd menyw yn ansicr am ddyddiad mamogram symptomatig blaenorol er mwyn galluogi'r staff ar unedau symudol i ffonio staff Bron Brawf Cymru i ofyn iddynt gysylltu â'r bwrdd iechyd i gadarnhau'r dyddiad, neu edrych ar system PACS os yw ar waith.</p> <p>Caiff hyn ei wneud erbyn 4 Tachwedd yn unol â Cham Gwella 4</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gymwys i gael prawf sgrinio'r fron, a dylai hyn gynnwys prosesau clir ar gyfer delio ag eithriadau.</p> <p>Gellir cynnal mamogram ar gyfer gwahoddiadau arferol os gellir cadarnhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y fenyw wedi'i chofrestru â phractis meddygol • bod y fenyw rhwng 50 a 71 oed • bod o leiaf chwe mis wedi mynd heibio ers iddi gael mamogram blaenorol • nad yw'r fenyw wedi cael mastectomi dwyochrog <p>Bydd y mamograffydd sy'n cynnal yr archwiliad yn gofyn i'r fenyw pryd a ble y cafodd ei mamogram diwethaf, ac os bydd yn gwybod, rhaid i'r dyddiad a'r drafodaeth gael eu cofnodi. Mae cadarnhad ar lafar yn ddigon ac nid oes angen gwiriadau pellach fel mater o drefn. <i>Os bydd mwy na chwe mis wedi mynd heibio ers y mamogram diwethaf, bydd y mamograffydd yn parhau â'r archwiliad i sgrinio'r fron.</i></p> <p>Mae hyn yn unol ag ymarfer cyfredol yn Bron Brawf Cymru. Mae'r manylion hyn wedi'u cynnwys wrth adolygu a diweddarau gweithdrefnau cyffredinol y cyflogwr a gweithdrefnau manwl y cyflogwr.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ar hyn o bryd, ni ellir cyflwyno gwiriadau o wybodaeth am famogramau symptomatig ar gyfer gwasanaethau sgrinio'r fron yng Nghymru gan na allant gael mynediad i systemau PACS pob bwrdd iechyd ac nid oes cysylltiad â'r rhwydwaith ar yr unedau sgrinio symudol.</p> <p>Bydd gwaith i ddeall sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio mynediad i systemau PACS pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae gwaith i roi system PACS newydd ar waith ledled Cymru wrthi'n cael ei gynllunio. Bwriedir i'r system gael ei rhoi ar waith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru erbyn mis Mawrth 2025 a disgwylir i'r gwaith o'i rhoi ar waith yn llawn ledled Cymru gymryd dwy flynedd arall. Mae deall sut y gellid defnyddio'r fenter hon i fynd i'r afael â'r mater yn faes â blaenoriaeth. • Cysylltiad TG diogel ar unedau symudol - datrysiaid technegol sy'n seiberddiogel ac yn ymarferol - mae problemau signal ar rai safleoedd yng Nghymru. • Caffael ac adnoddau ar gyfer cysylltiad TG diogel. • Prosesau cymeradwyo Llywodraethu Gwybodaeth i alluogi'r staff i gael rheswm cyfiawn dros weld gwybodaeth gan y bydd hyn ar sail unigol. • Proses ymarferol o sicrhau bod modd gwirio gwybodaeth fel rhan o'r broses o 		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gynnal y clinig sgrinio ac nad yw'n achosi oedi i gyfranogwyr.</p> <p>Gellir gwneud gwaith i archwilio a chwmpasu'r datrysiad hwn ond bydd angen i hyn gyd-fynd â'r terfynau amser a nodir uchod.</p> <p>Er mwyn lliniaru'r risg y bydd cyfranogwr sgrinio yn cael mamogram o fewn chwe mis i gael mamogram symptomatig blaenorol, bydd Gweithredwr IR(ME)R yn gofyn i'r fenyw a yw wedi cael mamogram o'r blaen, ac os felly, pryd. Caiff hyn ei gofnodi ar ffurflen SASP2 a system TG NBSS pan gaiff y newidiadau eu rhoi ar waith.</p> <p>Os bydd menyw yn ansicr am ddyddiad mamogram symptomatig blaenorol, yna ni fydd y mamogram yn cael ei gynnal nes bod y dyddiad wedi'i gadarnhau.</p> <p>Er mwyn lliniaru'r risg y bydd cyfranogwr sgrinio yn cael mamogram o fewn chwe mis i gael mamogram symptomatig blaenorol, bydd y broses o ran gwiriadau yn cael ei hadolygu a'i chryfhau gan ystyried y canllawiau uchod.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â rhaglenni sgrinio'r fron eraill yn y DU i archwilio eu prosesau i lliniaru'r risg hon; trafod mynediad i systemau PACS byrddau iechyd na all gwasanaethau sgrinio'r fron gael mynediad iddynt ar hyn o bryd; archwilio a ellir rhoi proses ar waith yn systematig os bydd menywod yn ansicr am ddyddiad mamogram</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		symptomatig blaenorol er mwyn galluogi'r staff ar unedau symudol i ffonio staff Bron Brawf Cymru i ofyn iddynt gysylltu â'r bwrdd iechyd i gadarnhau'r dyddiad, neu edrych ar system PACS os yw ar waith.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:



Enw (priflythrennau): Dr Sharon Hillier

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: 27/09/24

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bron Brawf Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 28 ac 29 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelwyd rhai codau QR er mwyn galluogi pobl i roi adborth, ond nid oedd gwybodaeth benodol yn ymwneud â Llais (profiad y claf) na gweithdrefn Gweithio i Wella GIG Cymru. Hefyd, nid oedd gwybodaeth am welliannau/newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth.	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y posterï perthnasol yn cael eu harddangos mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Llais"Gweithio i wella"Gwybodaeth "Dywedoch chi, gwnaethom ni".	Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	<p>Mae posterï Gweithio i Wella eisoes wedi'u harddangos ar yr unedau symudol a'r safleoedd sefydlog.</p> <p>Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod posterï am Llais yn cael eu harddangos ar yr unedau symudol a'r safleoedd sefydlog; yn ogystal â gwybodaeth am welliannau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth.</p>	Rheolwyr Radioleg Rhanbarthol	I'w gwblhau o fewn mis

2.	<p>Nid oedd y lefelau cyfeirio diagnostig a welwyd yn nodi'r lefelau cyfeirio diagnostig cyfredol a ddefnyddiwyd.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â lefelau cyfeirio diagnostig a lefelau cyfeirio diagnostig lleol er mwyn adlewyrchu'r lefelau cyfredol a ddefnyddir. Rhaid i hyn gynnwys lefelau cyfeirio diagnostig tomosynthesis.</p>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 5 (c)</p>	<p>Mae dogfen gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'i diwygio a'i diweddarau.</p> <p>Y ddogfen benodol yw: Gweithdrefn Cyflogwr 7 Bron Brawf Cymru. Gweithdrefn i ddefnyddio ac adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys lefelau cyfeirio diagnostig tomosynthesis.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau</p> <p>Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu cadarnhau ar 23 Medi, a chawsant eu hanfon at bob deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R ar 23 Medi.</p>
3.	<p>Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn ymwneud ag unigolion o oedran beichiogi yn unol ag arferion gorau nac yn cyfateb i ymarfer clinigol.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr adolygu gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud ag unigolion o oedran beichiogi a'i diweddarau yn unol ag arferion gorau.</p>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 8</p>	<p>Mae dogfen gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'i diwygio a'i diweddarau.</p> <p>Y ddogfen benodol yw: Gweithdrefn Cyflogwr 4 Bron Brawf Cymru. Gweithdrefn i ganfod a yw cyfranogwr o oedran beichiogi yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau</p> <p>Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu cadarnhau ar 23 Medi, a chawsant eu hanfon at bob deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R ar 23 Medi.</p>

4.	Roedd rhai o'r archwiliadau clinigol a welsom yn ystod yr arolygiad yn anghyson o ran y ffordd roedd canfyddiadau archwiliadau wedi'u cyflwyno, ac nid oeddent yn cynnwys tystiolaeth o ddadansoddiad manwl o'r canlyniadau.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dull safonol ar waith i adrodd ar archwiliadau, y gwersi i'w dysgu, y camau i'w cymryd mewn perthynas â chanlyniadau archwiliadau ac a oes angen cynnal ail archwiliad.	Rheoliad 7	Bydd yr archwiliadau yn unol â pholisi a thempledi lechyd Cyhoeddus Cymru. https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/polisiau-a-gweithdrefnau/polisiau-a-gweithdrefnau/polisiau-llywodraethu-clinigol-a-rheoli-heintiau/gweithdrefn-archwiliadau-clinigol-ac-ansawdd-icc-stp06/ Mae hyn eisoes wedi'i roi ar waith ar gyfer yr archwiliadau yn ymwneud â rhoi gweithdrefnau diwygiedig y cyflogwr ar waith.	Mae'r cam gweithredu hwn ar waith	Mae'r cam gweithredu hwn ar waith
5.	Nid oedd y weithdrefn yn ymwneud â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol o safbwynt clinigol yn unol â'r canllawiau cyfredol.	Rhaid i'r cyflogwr gynnal adolygiad llawn o'r weithdrefn hon a'i diweddar. Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r weithdrefn hon a'i diweddar yn unol â'r canllawiau cyfredol.	Rheoliad 8	Mae dogfen gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'i diwygio a'i diweddar. Y ddogfen benodol yw: Gweithdrefn Cyflogwr 11 Bron Brawf Cymru. Gweithdrefn i'w dilyn ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol.	Wedi'i gwblhau	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu cadarnhau ar 23 Medi, a chawsant eu hanfon at bob deiliad

					dyletswydd o dan IR(ME)R ar 23 Medi.
	Dylai'r cyflogwr ystyried cynnal dadansoddiad o dueddiadau ar gyfer digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd a'u cymharu â chyfnodau blaenorol er mwyn helpu'r gwasanaeth i nodi tueddiadau posibl mewn perthynas â digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd.	Rheoliad 8	<p>Eir ar drywydd hyn a chaiff gwaith i ddadansoddi tueddiadau digwyddiadau Datix sy'n gysylltiedig â rheoliadau IR(ME)R ei wneud ar gyfer y rhaglen.</p> <p>Caiff pob digwyddiad ei adolygu yn y cyfarfodydd sicrwydd technegol a gofnodir a chyfarfodydd y Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd. Bydd hyn bellach yn cynnwys digwyddiadau a fu bron â digwydd.</p> <p>Byddai eglurhad ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn duedd o safbwynt AGIC yn ddefnyddiol.</p>	Mae Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol yn gweithio gyda chydweithwyr yn RPS a chydweithwyr ym maes llywodraethu integredig yn y gyfarwyddiaeth nyrsio, ansawdd a llywodraethu integredig.	I'w gwblhau o fewn tri mis
Roedd diffyg dealltwriaeth o'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer	Rheoliad 11 Atodlen (1) (b)	Mae dogfen gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'i diwygio a'i diweddarau.	Wedi'i gwblhau	Wedi'i gwblhau

<p>awdurdodi ymhlith y staff y gwnaethom siarad â nhw, a hynny ym mhob grŵp staff. Wrth edrych ar gofnodion, ni welsom unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi o gyfiawnhad ac awdurdodiad ar gyfer atgyfeiriadau am brawf sgrinio neu glinig asesu, nac ar gyfer adalw cleientiaid am resymau technegol.</p>	<p>cyfiawnhau ac awdurdodi. Rhaid i dystiolaeth o awdurdodiad gael ei chofnodi a'i harchwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag IR(ME)R.</p>	<p>Y ddogfen benodol yw: Gweithdrefn Cyflogwr 2 Bron Brawf Cymru. Gweithdrefn i nodi unigolion sydd â hawl i weithredu fel atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr ar gyfer cysylltiadau o dan IR(ME)R</p> <p>Roedd hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r system TG (NBSS) a ffurflen SASP2. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r broses ar gyfer cofnodi gwiriad adnabod; gwiriad beichiogrwydd a bwydo ar y fron; a newidiadau i derminoleg o 'mamograffydd' i 'gweithredwr IR(ME)R'. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud i'r fersiwn bapur o ffurflen SASP2 ac mae'r newidiadau TG wedi'u gwneud a'u rhoi ar waith ar y safleoedd sefydlog. Mae gwaith digidol angenrheidiol yn mynd rhagddo cyn y gellir rhoi'r newidiadau TG ar waith ar yr unedau symudol.</p>
--	---	---

				<p>Mae cyfarwyddiadau gwaith manwl hefyd wedi'u datblygu sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau'r cyflogwr ac yn rhoi proses fanwl i'r staff ei dilyn.</p> <p>Y cyfarwyddyd gwaith penodol yw Cyfarwyddyd Gwaith 7 Bron Brawf Cymru - Cynnal Mamogramau Sgrinio.</p>		
6.	<p>Gwnaethom gadarnhau na ellid arfarnu dogfennaeth atgyfeirio cleientiaid presennol neu flaenorol gan nad oedd y ffynhonnell wybodaeth sylfaenol wedi'i chadw yn ffeil y cleient.</p> <p>Ni allai'r staff gadarnhau'r prosesau mewn perthynas â storio a chadw gwybodaeth.</p> <p>Roedd ffeiliau ffilmiau mamogramau</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r canllawiau ar ddogfennau a gwybodaeth glinigol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw, ei storio a'i gwaredu'n briodol ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.</p>	<p>Rheoliad 10 Atodlen 5</p>	<p>Caiff y ddogfen atgyfeirio ei chadw drwy gwblhau'r ffurflen SASP2 bapur, ei chadw a'i sganio. Pan fydd y newidiadau TG wedi'u rhoi ar waith yn llawn ar yr unedau symudol, bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar y system TG.</p> <p>Caiff y ffilmiau eu storio yn unol â'r canllawiau cadw a'u gwaredu'n briodol.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod y pared yn cael ei dynnu a'i gloi i fynd i'r afael â hyn.</p>	<p>Mae'r Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran ddigidol.</p>	<p>Disgwylir i'r newidiadau TG gael eu rhoi ar waith ar yr unedau symudol erbyn diwedd y flwyddyn galendr.</p>

	<p>hanesyddol yn cael eu storio mewn adeilad allan a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd staff a chyfarfodydd clinigol. Nid oedd yn glir beth oedd y cynlluniau ar gyfer storio'r ffilmiau hyn ac roedd yn ymddangos yn amhriodol storio'r dogfennau hyn yn rhywle lle y gallai staff a oedd yn mynychu cyfarfodydd gael gafael arnynt.</p>				Rheolwr Radiograffeg Rhanbarthol	
7.	<p>Yn ystod yr arolygiad, cadarnhawyd bod y prosesau a oedd ar waith yn Bron Brawf Cymru, Llandudno hefyd ar waith ar safleoedd eraill Bron Brawf Cymru.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gwelliannau gofynnol eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob rhan o Bron Brawf Cymru.</p>	Rheoliad 6	<p>Mae'r holl gamau gweithredu a gwblhawyd wedi'u cwblhau ym mhob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru.</p>	Wedi'i gwblhau	Wedi'i gwblhau

8.	Rhannwyd dogfennau a gweithdrefnau unigol y cyflogwr fel rhan o'r broses o edrych ar y Ffurflen Hunanasesu yn ystod yr arolygiad, a rhoddwyd adborth manwl yn ystod yr arolygiad.	Oherwydd nifer yr awgrymiadau a wnaed, rhaid i'r cyflogwr weithredu ar yr adborth penodol a rannwyd wrth edrych ar y Ffurflen Hunanasesu yn ystod yr arolygiad, mewn perthynas â diweddaru pob un o weithdrefnau'r cyflogwr.	Rheoliad 6 Atodlen 2 (1)	<p>Mae gweithdrefnau'r cyflogwr wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Mae hyn yn unol â dogfen "Breast screening: guidance on implementation of Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations (2017)" – GOV.UK (www.gov.uk).</p> <p>Mae'r dogfennau yn ddogfennau ar wahân sy'n cynnwys dogfen gweithdrefnau cyffredinol y cyflogwr a 12 o weithdrefnau manwl y cyflogwr, ac maent yn cynnwys yr holl brosesau yn ymwneud ag IR(ME)R mewn un lle.</p> <p>Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlenni wedi'u dogfennu ar gyfer cadw cofnodion • tystiolaeth ddogfennol o wiriadau adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio neu'r sawl a gyflawnodd y dasg hon 	Wedi'i gwblhau	Wedi'i gwblhau
----	---	--	-----------------------------	---	----------------	----------------

- proses i gofnodi tystiolaeth o gyfiawnhad neu awdurdodiad at ddibenion dadansoddi neu adolygu ôl-weithredol
- proses i ddangos tystiolaeth o atgyfeiriwr unigol ar gyfer cleifion biopsi neu glinig asesu
- tystiolaeth o feini prawf atgyfeirio ar gyfer mamograffi sgrinio

Anfonwyd gweithdrefnau'r cyflogwr at yr holl ddeiliaid dyletswydd drwy e-bost ddydd Llun 23 Medi a gofynnwyd iddynt gadarnhau eu bod wedi eu derbyn a'u darllen.

Darparwyd copiau papur ar unedau symudol a safleoedd sefydlog ledled Cymru. Gofynnwyd i ddeiliaid dyletswydd gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau sydd ganddynt ar y dogfennau i'w rheolwr llinell, a byddai'r rhain yn cael eu

coladu'n ganolog i lywio unrhyw ddiwygiadau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hyfforddiant staff ar draws y rhanbarthau rhwng 24 Medi a 9 Hydref er mwyn sicrhau negeseuon cyson a gwirio dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diwygiedig a'r newidiadau i brosesau, fel bod modd eu rhoi ar waith yn ddiogel. Y Rheolwyr Radiograffeg a gynhaliodd yr hyfforddiant hwn gyda'u timau rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gloywi ar reoliadau IR(ME)R, rolau staff o dan y rheoliad ar gyfer deiliaid dyletswydd a sut i gael gafael ar y gweithdrefnau a gwybodaeth berthnasol.

Mae sesiynau hyfforddiant ychwanegol wedi'u cynnal (rhwng 29 Hydref a 4 Tachwedd) ar gyfer staff na fu modd iddynt gymryd rhan yn y sesiynau blaenorol.

Mae cyfarwyddiadau gwaith manwl hefyd wedi'u datblygu sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau'r cyflogwr ac

				<p>yn rhoi proses fanwl i'r staff ei dilyn.</p> <p>Mae cynllun archwilio wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith i wirio cydymffurfiaeth ar draws y llwybr gan ddeiliaid dyletswydd o dan IR(ME)R.</p>		
9.	<p>Dangosodd ymatebion i'r arolwg staff nad oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.</p>	<p>Rhaid i Bron Brawf Cymru, Llandudno, fyfyrion ar ymatebion y staff sy'n awgrymu nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, a rhoi gwybod i AGIC pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.</p>	Effeithiol	<p>Byddwn yn myfyrion ar yr adborth hwn ac yn ei ystyried ar y cyd ag adborth a gafwyd drwy ddulliau eraill, gan gynnwys yr arolwg staff ar lefel y sefydliad. Rhannwyd canlyniadau'r arolwg hwn yn ddiweddar a byddwn yn cymryd camau i wella.</p>	Pennaeth y Rhaglen	<p>Nodi camau gweithredu a'u rhoi ar waith o fewn tri mis.</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Sharon Hillier

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: 08/11/2024